Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd am 8.30pm ar ddydd Mercher, 13 Gorffennaf yn Neuadd y Sir, Llandeilo

Yn Bresennol: Cyng Ros Bellamy, Maer Colin Jenkins,
Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater,
Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace, Cyng Fran Murphy, Roger Phillips, Clerc.

Ymddiehuriadau: Cyng Ieuan Gwyn

6563/Gorffennaf/05 Talu Anfonebion

(i) CS Caerfyrddin– costau goleuadau ffordd	£259.36 - **symud**
(ii) Taflen Digwyddiadau Llandeilo	£100.00 - **symud**
(iii) Diweddaru'r Wefan ar gyfer Mai (1 awr)	£15.00 - **symud**
(iv) Cydnabyddiaeth y Clerc(J Stait)	£ 349.91 - **symud**

6564 /Gorffennaf/ 05 Incwm a dderbyniwyd

Tocynnau Swper	£136.00
Ad-daliad BT	£15.82
Nawdd Cymuned (ail daliad)	£3200.00

Mae rhif ffôn yr hen swyddfa erbyn hyn wedi ei ddadgysylltu ac ni ddylem dderbyn anfonebion amdano bellach. Gofynnwyd i'r Clerc roi neges peiriant ateb ddwyieithog newydd ar y ffôn newydd. Cytunodd pawb yn unfrydol.

6565 /Gorffennaf/ 05 Trefniadau Cyflogau Staff

Bydd y system BACS yn cael cael ei defnyddio er mwyn osgoi costau banc. Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i awdurdodi taliadau misol.

6566 / Gorffennaf/05 Balans Cyfrifon
Cofnodwyd yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor, ac fe'i **dderbyniwyd**:

CTLl	CYFRIF CYFREDOL		£ 10236.86
CTLl	CYFRIF CADW (27.06.05)		£33716.58
CTLl	CYFRIF Y MAER (20.06.05)		£328.89
		CYFANSWM	£44282.33

6567 /Gorffennaf/ 05 Cyfrifon Diwedd y Flwyddyn

Mae angen delio gyda rhai materion a mympwyon sy'n deillio o newidiadau staff. Adroddodd Cyng Hugh Towns y gobeithir rhoi hyn ar yr agenda ar gyfer Cyfarfod Llawn nesaf y Cyngor.

6568 /Gorffennaf/ 05 Materion Ariannol Eraill

1. Adolygiad systemau rheoli mewnol. Cyflwynodd Cyng Hugh Towns adroddiad ar y gweithdrefnau sydd i'w dilyn. Cynigodd Cyng Ros Bellamy i'r rhain gael eu mabwysiadu, eiliwyd gan Cyng Colin Jenkins. Cytunodd pawb yn unfrydol.

2. Trosglwyddo i Gyfrif y Maer. Mae angen cwblhau'r trosgwlwyddiadau er mwyn cwblhau costau'r Swper.

3. Ceramica. Adroddodd Cyng Hugh Towns bod mantolen wedi ei derbyn. Cytunwyd i roi £1200. Cynigwyd gan Cyng Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan Cyng Fran Murphy.

Cais am gymorth ariannol: Trudie Jones, sydd wedi ei dewis i gynrychioli tîm Bowlio Merched Ifanc Cymru yn Iwerddon. Cynigodd Cyng Ros Bellamy gyfraniad o £100. Eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price. Pawb yn gytun.

Allweddi newydd: Mae allweddi newydd i'r swyddfa wedi eu torri. Pawb yn gytun y dylid talu'r gost o £15.75 am hyn.

4. Prosiect Neuadd y Sir. Adroddodd Cyng Hugh ar gyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Maer a Mr Gwilym Hughes. Penderfynwyd atal y cais am nawdd a chyflwyno cais newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill. Cynigwyd gan Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm.